

Minwear/Coed Canaston

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER: SAFLE PICNIC MINWEAR - 1.0 milltir (1.6 km)
COED CANASTON - 2.3 milltir (3.7 km)


CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth ym Mhont Canaston wedi cerdded 1 km trwy'r coetir 322/381/385

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- • • • • Safle Picnic Minwear
- • • • • Coed Canaston
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Parc
- Bus Safle Bws
- AP Safle Picnic



Minwear/Coed Canaston

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth ym Mhont Canaston wedi cerdded 1 km trwy'r coetir 322/381/385.

Safle Picnic Minwear

Pellter: 1.0 milltir (1.6 km)

Cyfeirnod map: SN053135

Cymeriad: Llwybrau cerdded, peth graddiant.

Dim sticlau. Grisau i lawr.

Cerddwch i lawr y llwybr ar gornel dde gwaelod yr ardal bicnic (arwydd 'Llwybr Coedwig Minwear Forest Walk'). Ewch i lawr y grisau ac, ar y gwaelod, trowch i'r chwith arno i'r trac llydan. Wrth y postyn marcio'r llwybr at yr olygfan ar y dde, naill ai trowch i'r dde at yr olygfan ac ewch yn ôl yr un ffordd, neu ewch yn syth ymlaen trwy'r llannerch, yna nôl i mewn i'r coed. Wrth y mynegbost, trowch i'r chwith ac, wrth agosau at yr heol, chwiliwch am y llwybr o'ch blaen ar ochr gyferbyn yr heol. Croeswch yr heol a dilynwch y llwybr amlwg trwy'r coed, gan fynd i fyny'r tyle ychydig. Wrth y postyn marcio'r llwybr mae'r llwybr yn troi i'r chwith ac yna'n fuan i'r chwith eto, ac wedyn i lawr y tyle. Ar y gwaelod, croeswch yr heol yn ôl i'r man picnic.

Coed Canaston

Pellter: 2.3 milltir (3.7 km)

Cyfeirnod map: SN071140

Cymeriad: Llwybrau drwy goetir, cymharol wastad.

Dim sticlau na giatiau.

O'r maes parcio, cerddwch yn ôl i'r heol, trowch i'r chwith ac yna trowch i'r dde'n fuan arno i lwybr ceffylau llydan. Dilynwch y trac ac ar ôl croesi'r nant, gan fynd o dan y trac, cymerwch y trydydd llwybr gydag arwydd ar y dde. Dilynwch lwybr glaswelltog trwy goed ifancach ac, wedi cyrraedd y coed mwy aeddfed, chwiliwch am fynegbost a throwch i'r dde. Wrth y fforc, ewch yn syth ymlaen a pharhewch i ddilyn llwybr glaswelltog. Ar y diwedd, trowch i'r chwith arno i'r trac, a throwch i'r chwith eto arno i'r heol yn ôl at Felin Blackpool.

